

# TROSOLWG O DDATA PERFFORMIAD: BYWYD GWAITH

**DATA CENEDLAETHOL**

Mae adran gyntaf yr Atodiad hwn yn ymdrin â dangosyddion cenedlaethol. Mae'r rhain yn cysylltu â data a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru – mae gwasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cyfrannu at, ond nid yn gwbl atebol, am y data hwn.




Ffynhonnell: NOMIS




Ffynhonnell: NOMIS

Yn gyffredinol, mae nifer y gweithwyr cyflogedig wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond fe ostyngodd yn ystod y pandemig. Dechreuodd nifer y gweithwyr cyflogedig gynyddu eto ar ddiwedd 2020 a bellach, mae'n uwch na'r lefel cyn y pandemig.


Mae'r gyfradd cyflogaeth ar gyfer Merthyr Tudful yn cynnwys data o'r holl asiantaethau/ sefydliadau sy'n cefnogi pobl i mewn i gyflogaeth, ac o'i chymharu â'r gyfradd cyflogaeth genedlaethol, gellir gweld bod y ddau yn dirywio. Fodd bynnag, mae cyfartaledd Cymru yn dangos gostyngiad o **-0.6%** dros y 4 blynedd diwethaf tra bod Merthyr Tudful yn dangos gostyngiad o **-8.2%** dros yr un cyfnod.

*Mae pandemig Covid wedi cael effaith ar y gyfradd cyflogaeth gyda busnesau yn addasu neu'n rhoi'r gorau i fasnachu am beth amser o ganlyniad i gyfyngiadau'r cyfnod clo ac ati. Mae lefel uchel o gyflogwyr Merthyr Tudful yn gweithredu yn y sector gwasanaeth/ twristiaeth ac maent wedi'u heffeithio'n fawr gan Covid 19. Lleihawyd yr effaith hon drwy'r cymorth a gynigiwyd i fusnesau lleol fel y gallant sicrhau grantiau cynaliadwyedd gan Lywodraeth Cymru.*

Ystyrir mai'r Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (yr NVQs) yw'r rhai sy'n asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a/neu sgiliau sy'n ymwneud yn benodol â byd gwaith. Mae yna nifer ac amrywiaeth fawr o gymwysterau galwedigaethol ar gael yng Nghymru ynghyd â nifer eang o gyrff dyfarnu yn eu cynnig.

Wrth gymharu'r data cyfartalog cenedlaethol yn erbyn data penodol Merthyr Tudful, gellir gweld bod y duedd gyffredinol ar gyfer Cymwysterau NVQ2 neu uwch wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru yn ystod cyfnod yr adolygiad. Dros y 4 blynedd a adolygwyd ar gyfer yr adroddiad hwn, roedd data cymwysterau cyfartalog Cymru yn dangos gwelliant o **+2.4%** rhwng 2017/18 a 2020/21; roedd hyn yn cymharu â gostyngiad o **-2.9%** ar gyfer Merthyr Tudful am yr un cyfnod.

*Fodd bynnag, mae'n drawiadol fod y bwlch rhwng perfformiad Merthyr Tudful a chyfartaledd Cymru wedi dechrau lleihau o **-16.6%** yn 2018/19 i **-13.2%** yn 2020/21 (gwelliant o **3.4%**).*





Ffynhonnell: [NOMIS]

Y targed ar gyfer y mesur hwn fyddai gweld gostyngiad yn nifer y bobl heb gymwysterau. Wrth gymharu'r data cyfartalog cenedlaethol yn erbyn data penodol Merthyr Tudful, mae'r duedd gyffredinol yn dangos bod perfformiad lleol wedi aros yn ystyfnig uwchlaw cyfartaledd Cymru yn ystod cyfnod yr adolygiad.

Dros y 4 blynedd a adolygwyd ar gyfer yr adroddiad hwn, roedd data cymwysterau cyfartalog Cymru yn dangos gwelliant o **1%** rhwng 2017/18 a 2020/21; roedd hyn yn cymharu â gostyngiad o **-1.5%** ar gyfer Merthyr Tudful am yr un cyfnod. Mae'r maes hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i fynd i'r afael ag ef, ac mae'r Bartneriaeth Twf Economaidd yn gysylltydd allweddol i gydlynu'r camau a gymerir gan asiantaethau/ sefydliadau i wella hyn.

*O dan ail adran yr atodiad hwn, fe welwch ddata penodol CBSMT a gynhyrchwyd gan y gwasanaethau a ddarperir gan Raglenni Cyflogadwyedd CBSMT. Mae effaith Covid-19 yn ystod 2020-2021 a 2021-2022 i'w gweld yn amlwg; fodd bynnag, mae lefel y deilliannau a sicrhawyd yn gyffredinol wedi dangos gwelliant o flwyddyn i flwyddyn.*





Ffynhonnell: Infobase Cymru

Byddai'r Cyngor yn edrych am ostyngiad yn nifer y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.


Wrth gymharu data penodol Merthyr Tudful â data cyfartalog Cymru, gellir gweld bod y duedd gyffredinol ar gyfer cyfradd y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ym Merthyr Tudful, wedi cynyddu o 1.0% yn 2017-2018 i 2.7% yn 2020-2021 (cynnydd o **1.7 %)** tra bod ffigur cyfartalog Cymru wedi gostwng.

*Mae'n bwysig nodi bod y gyfradd ganrannol yn cyfateb i grŵp cymharol fach o bobl ifanc; e.e. yn 2019-2020, roedd 2.1% yn cyfateb i 11 o bobl ifanc ac yn 2021-22, roedd 2.7% yn cyfateb i 14 o bobl ifanc.*

*Nid yw effaith y pandemig ar lefelau NEET wedi cyrraedd ei benllanw eto.*




Ffynhonnell: StatsCymru




Ffynhonnell: StatsCymru

Wrth gymharu'r data cyfartalog cenedlaethol yn erbyn data penodol Merthyr Tudful, gellir gweld bod y duedd ar gyfer cyfradd genedigaethau busnes wedi aros yn gyffredinol uwch na chyfartaledd Cymru yn ystod cyfnod yr adolygiad.

Fodd bynnag, wrth edrych ar berfformiad Merthyr Tudful flwyddyn ar ôl blwyddyn, gallwn weld bod **y duedd gyffredinol wedi gostwng** o **17.9%** yn 2016-2017 i 12.1% yn 2020-2021. Mae cyfran uchel o fusnesau ym Merthyr Tudful yn seiliedig ar wasanaethau, e.e. siopau, bwytai/caffis ac ati. Mae'r busnesau bychain hyn yn aml yn ei chael hi'n fwy anodd i dalu'u costau cychwynnol (trethi busnes, cyfleustodau ac ati) yn enwedig yn y farchnad gystadleuol sydd ohoni. Mae CBSMT wedi datblygu Cynllun yn y Cyfamser i gefnogi busnesau newydd ac mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai hyn fod yn cael effaith gadarnhaol.

*Nodwyd y gyfradd isaf o enedigaethau busnes yn 2018-2019; ers hynny, mae rhywfaint o welliant wedi'i nodi a dechreuodd cyfradd genedigaethau busnes "droi'r gornel". Rydym yn aros am y data ar gyfer 2021-2022 i weld a yw hyn wedi'i gynnal; fodd bynnag, nid yw'r data hwn ar gael eto.*


Wrth gymharu perfformiad Merthyr Tudful yn erbyn y cyfartaledd cenedlaethol, gellir gweld bod y duedd ar gyfer cyfradd marwolaethau busnes wedi aros **yn uwch na chyfartaledd Cymru** dros gyfnod yr adolygiad. Er bod gostyngiad o **0.4%** wedi'i nodi ar draws y 5 mlynedd dan sylw, mae hyn yn cyferbynnu â chynnydd cyfartalog Cymru o **0.3%** dros yr un cyfnod.

Pan edrychwn ar ddata blwyddyn ar ôl blwyddyn, mae tystiolaeth fod busnesau ar draws Merthyr Tudful wedi wynebu heriau sylweddol yn ystod 2017-2018 gyda chyfradd o 13.1% ar gyfer marwolaethau busnes. O gymharu hyn â'r data diweddaraf sy'n dangos cyfradd o 10.5% ar gyfer marwolaethau busnes, gallwn weld **gwelliant o 2.6%** yn nifer y busnesau sy'n goroesi.

*Mae'n rhesymol awgrymu bod rhai o'r gweithgareddau cymorth a ddarparwyd ar draws Merthyr Tudful wedi cael effaith gadarnhaol gan helpu busnesau i wynebu'u heriau. Mae hyn yn enwedig o wir o ran rheoli effaith y pandemig pan gefnogodd CBSMT fusnesau lleol trwy sicrhau £40+ miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru - bu hyn yn fodd iddynt barhau'n gynaliadwy er gwaethaf yr orfodaeth i gau yn ystod y cyfnod clo.*

**DATA LLEOL**

Mae’r adran hon o’r Atodiad yn ymdrin â dangosyddion lleol. Mae’r rhain yn cysylltu’n uniongyrchol â’r gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac yn adlewyrchu deilliannau gwasanaethau/gweithgareddau a ddarperir dan arweiniad y Cyngor.





**Ffynhonnell: Tîm Cyflogadwyedd CBSMT**

Mae hwn yn ***ddangosydd lleol*** sy’n golygu bod yr holl ddata’n ymwneud ag allbynnau a deilliannau a gyflawnwyd yn uniongyrchol gan Raglenni Cyflogadwyedd CBSMT. **Mae’r Cyngor yn chwilio am y data i ddangos cynnydd yn y deilliannau cadarnhaol a sicrhawyd.**

Mae’r duedd gyffredinol mewn perthynas â chyfranogwyr sy’n sicrhau cyflogaeth ar adael rhaglenni’r Cyngor a ariannwyd gan yr UE, yn **gadarnhao**l. Mae deilliannau diwedd-blwyddyn ar gyfer hyn yn dangos gwelliant o flwyddyn i flwyddyn. Yr eithriad yw 2020-2021 sy’n dangos effaith y newidiadau i’r gwasanaeth o ganlyniad i’r pandemig.

*Gellir priodoli’r gwelliant parhaus hwn mewn deilliannau yn rhannol i newidiadau yn y ffordd y mae’r prosiect yn gweithio, e.e. gweithio’n agosach gyda’r Tîm Cymorth Menter i gefnogi cwmnïau gyda’u recriwtio wrth iddynt (ail)leoli o fewn y Fwrdeistref Sirol. Drwy hynny, bu modd i’r Tîm ddarparu cefnogaeth benodol i bobl leol yn eu hymgais i sicrhau swyddi.*





**Ffynhonnell: Tîm Cyflogadwyedd CBSMT**


Mae hwn yn ***ddangosydd lleol*** sy’n golygu bod yr holl ddata’n ymwneud â’r Rhaglenni Cyflogadwyedd a ddarperir gan Wasanaethau Cyflogadwyedd CBSMT. **Ar gyfer y dangosydd hwn, mae’r Cyngor yn chwilio am y data i ddangos cynnydd yn y deilliannau cadarnhaol a sicrhawyd**.

Mae’r duedd gyffredinol mewn perthynas â’r dangosydd hwn yn datgelu bod deilliannau cadarnhaol wedi’u cyflawni o flwyddyn i flwyddyn, ac eithrio 2020-2021. Unwaith eto, mae effaith y pandemig yn chwarae rhan yng ngostyngiad y deilliannau ar gyfer y cyfnod hwn. At hynny, bu rhai cyrff allanol yn araf wrth ddychwelyd eu canlyniadau achredu a chafodd hynny effaith andwyol (ni ellir hawlio deilliannau heb dystiolaeth o gyflawniad h.y. tystysgrifau).

*Mae’r graff uchod hefyd yn dangos bod y sefyllfa yn Chwarter 3 eleni eisoes wedi rhagori ar ddeilliannau’r llynedd gyda data Chwarter 4 yn parhau yn yr arfaeth.*




Ffynhonnell: Rhaglenni Cyflogadwyedd CBSMT




Ffynhonnell: Tîm Cymorth Menter/Mewnfuddsoddi CBSMT

Mae hwn yn ***ddangosydd lleol*** sy'n golygu bod yr holl ddata'n ymwneud â'r Rhaglenni Cyflogadwyedd a ddarperir gan Wasanaethau Cyflogadwyedd CBSMT. **Ar gyfer y dangosydd hwn, mae'r Cyngor yn chwilio am y data i ddangos cynnydd yn y deilliannau cadarnhaol a sicrhawyd**.


Mae'r duedd gyffredinol mewn perthynas â chyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster ar adael Rhaglen Hyfforddi  Mewn Gwaith a ariannwyd gan yr UE, yn dangos gostyngiad. Gellir gweld bod deilliannau wedi simsanu dros y blynyddoedd gyda sawl ffactor yn effeithio ar berfformiad, e.e. roedd yr oedi cyn dyfarnu'r Prosiect Cymunedau am Waith yn golygu na chafodd mo'i gyflwyno tan 6 mis o ddechrau'r flwyddyn ariannol.

*Mae'r graff uchod hefyd yn dangos bod y sefyllfa yn Chwarter 3 eleni yn awgrymu y bydd gwelliant ar ddeilliannau'r llynedd, gyda data Chwarter 4 yn yr arfaeth o hyd.*

Mae hwn yn ***ddangosydd lleol*** sy'n golygu bod yr holl ddata'n ymwneud â'r Rhaglenni Cymorth Menter/Mewnfuddsoddi a ddarperir gan CBSMT. Ar gyfer y dangosydd hwn, mae'r Cyngor yn chwilio am ddata i ddangos **lefelau parhaus neu uwch** o ddeilliannau cadarnhaol.

Mae'r duedd gyffredinol mewn perthynas â datblygu adeiladau i gychwyn busnesau yn **gadarnhaol** gyda "sbigyn" mewn perfformiad wedi'i gofnodi yn 2019-2020, pan arweiniodd y gwaith o ailddatblygu Tŷ Crownford at 18 uned y gellid eu defnyddio fel canolfan i fusnesau bach. Yn ogystal â hynny, cefnogodd y Prosiect yn y Cyfamser ddatblygiad ar gyfer nifer o fusnesau ar draws y Fwrdeistref Sirol.

*Mae'r data yn dangos dirywiad mewn perfformiad yn 2020-2021. Mae'n deg awgrymu bod y newid cyflym yn yr amgylchedd busnes o ganlyniad i'r pandemig wedi effeithio ar berfformiad a'i fod wedi'i waethygu gan aflonyddwch yn y gadwyn gyflenwi sy'n cefnogi datblygiadau. Hefyd, cafwyd problemau i sicrhau ymgynghorwyr a chontractwyr ar gyfer datblygiadau ac mae'r rhain yn parhau.*





Ffynhonnell: Tîm Cymorth Menter/Mewnfuddsoddi CBSMT

Mae hwn yn ***ddangosydd lleol*** sy’n golygu bod yr holl ddata’n ymwneud â Rhaglenni Cymorth Menter/Mewnfuddsoddi CBSMT. Ar gyfer y dangosydd hwn, mae’r Cyngor yn chwilio am ddata i ddangos lefelau **parhaus neu uwch** o ddeilliannau cadarnhaol. Mae’r duedd gyffredinol yn **gadarnhaol iawn**, gyda gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn yn cael eu cyflawni dros oes y Cynllun Corfforaethol hwn.

*Mae nifer o ffactorau wedi cefnogi’r cynnydd cadarnhaol hwn. Mae defnyddio’r model “un pwynt cyswllt” wedi bod yn hynod fuddiol ac wedi galluogi’r Cyngor i ddod yn gorff poblogaidd i fuddsoddwyr sy’n ystyried sefydlu busnes yn y Fwrdeistref Sirol. Mae’r model hwn yn galluogi’r Tîm i gysylltu darpar fuddsoddwyr â llu o wasanaethau’r Cyngor gan alluogi iddynt symud i’r ardal yn haws, e.e. cymorth gyda chynllunio, recriwtio, uwchsgilio, delio â gofynion Iechyd yr Amgylchedd ac ardrethi busnes ayyb.*

*Un ysgogiad sylfaenol ar gyfer y newid hwn fu datblygu a chryfhau perthnasoedd gwaith ar draws y Cyngor. Mae’r ymagwedd integredig tuag at wasanaethau yn golygu bod modd diwallu’r holl anghenion a nodir yn gyflym ac yn effeithiol.*





Ffynhonnell: Tîm Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant CBSMT

Mae hwn yn ***ddangosydd lleol*** sy’n golygu bod yr holl ddata’n ymwneud â’r Rhaglenni Cyflogadwyedd a ddarperir gan Wasanaethau Cymorth Menter/Mewnfuddsoddi CBSMT. **Ar gyfer y dangosydd hwn, mae’r Cyngor yn chwilio am y data i ddangos cynnydd yn y deilliannau cadarnhaol a sicrhawyd**.

Mae’r duedd gyffredinol o ran nifer y rhai sy’n ymweld â 5 atyniad allweddol y Fwrdeistref Sirol yn **negyddol**. Cafodd y cyfyngiadau a gyflwynwyd yn sgil pandemig Covid-19 effaith ddinistriol ar y diwydiant treftadaeth, twristiaeth a diwylliant ledled y DU ac mae’r data a gasglwyd yn dangos yr effaith sylweddol a gafodd hyn ar lefel leol.

[1] *Mae’n bwysig nodi bod y data a gasglwyd ar gyfer 2019-2020 ac sydd wedi’i gynnwys yn yr adroddiad hwn, yn dangos cynnydd ar ddiwedd Chwarter 3 – ni chafodd y data ar gyfer y chwarter diwethaf mo’i gasglu wrth iddo gyd-daro â dyfodiad Covid-19.*





**Ffynhonnell: Tîm Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant CBSMT**

Mae hwn yn ***ddangosydd lleol*** sy'n golygu bod yr holl ddata'n ymwneud ag allbynnau a deilliannau a gyflawnwyd yn uniongyrchol gan Dîm Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant CBSMT. **Mae'r Cyngor yn chwilio am ddata i ddangos cynnydd neu lefel barhaus o ran trosglwyddo asedau o flwyddyn i flwyddyn.**

Mae'r duedd gyffredinol mewn perthynas â nifer y mentrau cymunedol a gefnogwyd i drosglwyddo asedau dros y 4 blynedd diwethaf, wedi dangos gostyngiad bychan o 3 y flwyddyn i 2 y flwyddyn.

*Mae'n rhesymol awgrymu bod y gofyniad i gydymffurfio â chyfyngiadau a gyflwynwyd yn sgil y pandemig, yn golygu bod hyn wedi cael effaith ar y gallu i gwblhau trosglwyddiadau pellach yn ystod yr adegau pan oedd cyfnodau atal byr a chyfnodau clo mewn grym. Rydym ar hyn o bryd yn aros am y data i nodi a yw perfformiad yn erbyn y mesur hwn wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn Covid.*





**Ffynhonnell: Tîm Diogelwch Cymunedol CBSMT**


Mae hwn yn ***ddangosydd lleol*** sy'n golygu bod yr holl ddata'n ymwneud ag allbynnau a deilliannau a gyflawnwyd yn uniongyrchol gan Dîm Diogelwch Cymunedol CBSMT. Fel mesur cymharol newydd, mae'r Cyngor yn chwilio am ddata i ddangos **gostyngiad** yn nifer y rhai sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac sy'n aildroseddu o fewn 6 mis i dderbyn Rhybudd Cam 2. Fel dangosydd newydd, ni chaiff unrhyw dargedau penodol mo'u gosod tan y sefydlir gwaelodlin gadarn.

Mae materion sy'n effeithio ar berfformiad ar gyfer y dangosydd hwn yn cynnwys beicio'n anghyfreithlon oddi ar y ffordd, pobl ifanc yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol (mae swyddogion wedi gweld cyfnodau o gynnydd yn hyn o beth) ac yfed ar y stryd yng Nghanol y Dref sy'n digwydd bob dydd ar hyn o bryd. Nid yw'r unigolion hyn yn torri unrhyw gyfreithiau ond mae'n cael effaith andwyol ar ganfyddiadau.

*Mae'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn yn cynnwys defnyddio'r faniau TCC, yn aml fel rhan o Ddiwrnodau Gweithredu Aml-asiantaeth. Mae briff TCC wythnosol wedi'i ddatblygu fel ymateb i'r maes blaenoriaeth sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith yr ifanc (a arweiniodd o fewn 7 niwrnod at ganfod 15 o'r troseddwyr ac maent bellach yn cael eu prosesu). At hynny, mae Ymgyrch Trevithick wedi sefydlu cronfa ddata i gofnodi data allweddol - bydd hyn yn ein helpu i nodi'r bwlch rhwng adroddiadau'r cyhoedd, y troseddau a gofnodir, yr atgyfeiriadau a'r canfyddiadau.*




Ffynhonnell: Tîm Safonau Masnach CBSMT




Ffynhonnell: Tîm Cymorth Tai CBSMT

Mae hwn yn ***ddangosydd lleol*** sy'n golygu bod yr holl ddata'n ymwneud ag allbynnau a deilliannau a gyflawnwyd yn uniongyrchol gan wasanaethau Safonau Masnach CBSMT. Mae hwn yn ddangosydd cymharol newydd ac **ni chaiff targed penodol** mo'i osod ar ei gyfer hyd nes y bydd gwaelodlin wedi'i datblygu dros gyfnod o 3 blynedd i wneud yn siŵr fod unrhyw darged yn ystyrlon.

Mae'r data a gasglwyd yn cynrychioli gwerth y nwyddau a atafaelwyd am y rhesymau canlynol: methwyd cydymffurfio â deddfwriaeth Safonau Masnach; aethpwyd â'r mater i'r llys gan arwain at euogfarn; atafaelwyd nwyddau a'u trosglwyddo i Safonau Masnach i'w dinistrio. Mae hyn yn ei gwneud hi'n heriol i ragamcanu tuedd ar gyfer y dangosydd hwn.

*Fodd bynnag, gallwn weld bod gwahaniaeth amlwg yng ngwerth y twyll a ganfuwyd ac a ddatryswyd o Chwarter 3 2020-2021 (£21,223) i Chwarter 3 2021-22 (£1,760.48). Y rheswm am hyn oedd bod ymchwiliadau Safonau Masnach wedi'u gohirio yn ystod y pandemig pan oedd busnesau'n masnachu o eiddo domestig.*


*Hyd nes y bydd ymchwiliadau'n ailddechrau ac achosion yn mynd yn eu blaenau i'r llysoedd, bydd y ffigur hwn yn aros yr un fath.*

Mae hwn yn ***ddangosydd lleol*** sy'n bwydo i mewn i'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (y "PAMs"). Mae'r holl ddata'n ymwneud ag allbynnau a deilliannau a gyflawnwyd yn uniongyrchol gan Wasanaethau Cymorth Tai a Digartrefedd CBSMT. Mae'r Cyngor yn ceisio gweld cynnydd yn lefel y rhai sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref ac yna'n cael datrysiad i'w sefyllfa.

Mae nifer y bobl sy'n cysylltu â'r gwasanaeth am asesiad digartrefedd wedi cynyddu'n gyson o flwyddyn i flwyddyn ers i'r ddeddfwriaeth tai newydd ddod i rym ym mis Ebrill 2015. Mae cyflwyniadau wedi gweld cynnydd sylweddol pellach yn dilyn y newidiadau a wnaed i'r anghenion blaenoriaethol ym mis Mawrth 2020 o ganlyniad i pandemig Covid-19.

Mae newidiadau a wnaed i ddeddfwriaeth ar ddigartrefedd o ganlyniad i bandemig Covid-19, bellach yn rhoi "angen blaenoriaethol" i bob unigolyn/aelwyd os credir eu bod yn ddigartref. Mae hyn yn gosod dyletswydd statudol ar yr ALl i ddarparu llety dros dro hyd nes y gellir cael hyd i lety parhaol a fforddiadwy. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y cyflwyniadau digartrefedd oddi ar fis Mawrth 2020.

*Er gwaethaf y pwysau ychwanegol hyn, mae swyddogion wedi llwyddo i gynnal lefel gyson o gymorth i'r rhai sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref. Fodd bynnag, fe fydd hi'n hynod heriol i gynnal hyn yn y tymor hwy os bydd y galw am gymorth yn parhau ar y lefel hon neu'n cynyddu o ganlyniad i newidiadau yn yr economi.*





Ffynhonnell: Tîm Cymorth Tai CBSMT

Mae hwn yn ***ddangosydd lleol*** sy'n bwydo i mewn i'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (y PAMs). Mae'r holl ddata'n ymwneud ag allbynnau a deilliannau a gyflawnwyd yn uniongyrchol gan Wasanaethau Tai a Digartrefedd CBSMT. Mae'r Cyngor am weld **cynnydd** yng nghanran yr aelwydydd sy'n llwyddo i oresgyn bygythiad o ddigartrefedd, gan gyfateb i'r cynnydd yn y galw.

Mae data perfformiad wedi dangos gwelliant yn y gyfradd lle mae digartrefedd yn cael ei atal **o 54%** yn 2017-2018 i **61%** yn 2020-2021 (**cynnydd o 7%**); fodd bynnag, ni ellir dweud bod y gwelliant hwn yn sefydlog gan fod nifer o newidynnau y tu allan i reolaeth swyddogion.

*Er mwyn rheoli'r galw cynyddol, mae gwasanaethau yn alinio'n well â gwasanaethau ategol eraill i wneud y mwyaf o gyllid grant, yn cynnal gwaith partneriaeth mwy effeithiol, ac yn cryfhau partneriaethau amlsector i fynd i'r afael â'r materion ehangach wrth wraidd y cynnydd yn nifer y bobl sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref. Byddir yn gwella gwaith partneriaeth â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer oedolion a phlant trwy ddatblygu prosiectau cydweithredol ac arloesol (CDC a Gofal Ychwanegol). Mae adolygiad o gyfleoedd i sefydlu Tai Amlfeddiannaeth ar y gweill; fodd bynnag, hyd yma bu'n anodd sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer y rhain oherwydd amrywiaeth o ffactorau.*





Ffynhonnell: Tîm Iechyd yr Amgylchedd CBSMT

Mae hwn yn ***ddangosydd lleol*** sy'n bwydo i mewn i'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (y PAMs). Mae'r holl ddata yn ymwneud ag allbynnau a deilliannau a gyflawnwyd yn uniongyrchol gan Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd. Mae'r Cyngor yn ceisio gweld cynnydd neu welliant yng nghanran yr eiddo gwag sy'n cael ei hailddefnyddio.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, roedd gwelliant yn datblygu'n araf. Fodd bynnag, fel gyda nifer o feysydd eraill, roedd perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn yn gwella o flwyddyn i flwyddyn; ond yn anffodus, roedd y pandemig yn golygu bod yn rhaid gohirio'r ffrwd waith hon wrth i swyddogion ymdrin â'r risgiau a'r problemau uniongyrchol a ddaeth yn sgil Covid. Symudodd y flaenoriaeth i ganolbwyntio ar gefnogi'r cyhoedd i reoli, llywio a chydymffurfio â gofynion deddfwriaethol newydd, anghyfarwydd.

*Mae'n rhesymol awgrymu bod y gofyniad i gydymffurfio â chyfyngiadau a gyflwynwyd yn sgil y pandemig yn golygu bod hyn wedi cael effaith ar y gallu i gwblhau trosglwyddiadau pellach yn ystod yr adegau pan oedd cyfnodau atal byr a chyfnodau clo mewn grym. Rydym ar hyn o bryd yn aros am y data i nodi a yw perfformiad yn erbyn y mesur hwn wedi dychwelyd i'r lefelau cyn Covid.*



Ffynhonnell: Tîm Iechyd yr Amgylchedd CBSMT

Mae hwn yn ***ddangosydd lleol*** sy'n bwydo i mewn i'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (y PAMs). Mae'r holl ddata'n ymwneud ag allbynnau a deilliannau a gyflawnwyd yn uniongyrchol gan Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd CBSMT. Mae'r Cyngor yn ceisio gweld **cynnydd** yng nghanran y busnesau bwyd sy'n cydymffurfio'n fras â hylendid bwyd.

Cyn y pandemig, roedd y gwasanaeth wedi cyflawni mân welliannau o flwyddyn i flwyddyn oddi ar 2017-2018 gyda **gwelliant o 2%** yn cael ei gyflawni dros y cyfnod dan sylw. Fodd bynnag, roedd y pandemig yn golygu bod angen gohirio'r rhaglen o ymyriadau rheolaidd er mwyn rhyddhau swyddogion i ymdrin â'r risgiau a'r problemau enbyd a ymddangosodd yn sgil Covid. Symudodd y flaenoriaeth i ganolbwyntio ar gefnogi'r cyhoedd i reoli, llywio a chydymffurfio â gofynion deddfwriaethol newydd, anghyfarwydd.

***Yn ddiweddar, mae Tîm Iechyd yr Amgylchedd wedi ailddechrau'r rhaglen ymyriadau; fodd bynnag, rhaid rheoli hyn ochr yn ochr â'r galwadau i ddelio ag effeithiau Covid. Mae arwyddion cynnar yn dangos bod safonau hylendid cyffredinol mewn safleoedd wedi gostwng gan nad yw busnesau wedi bod yn destun ymyriadau arferol yn ystod y pandemig. O'r herwydd, rydym yn rhagweld gostyngiad mewn perfformiad ar gyfer y dangosydd hwn. Yn ogystal â hynny, ym mis Hydref 2021, fe gyflwynwyd "Cyfraith Natasha" sef deddfwriaeth newydd sy'n ymwneud â labeli'r bwydydd hynny a ragbecynnir cyn eu gwerthu. Gall hyn gael goblygiadau sylweddol i fusnesau lleol bach a chanolig. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth o hyn ac wedi cefnogi busnesau i ddeall a chydymffurfio ag unrhyw ofynion newydd a ddaw i rym.***